**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

28 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 20 Tachwedd i roi tystiolaeth ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). I gynorthwyo â'n gwaith craffu ar y Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am rai materion.

1. Gwnaethoch ddweud bod rhai o'r pwerau deddfu yn y Bil wedi'u cwtogi, yn enwedig mewn meysydd lle maent yn ymwneud â chreu troseddau. A allech chi egluro a wnaeth eich ystyriaeth chi o asesiad o'r effaith ar gyfiawnder yn ystod datblygiad y Bil arwain at unrhyw newidiadau i'w ddarpariaethau?

2. Er mai eich bwriad chi yw y bydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol yn cynnal platfform gwybodaeth etholiadau Cymru, gwnaethoch ddweud nad ydych wedi nodi hynny ar wyneb y Bil oherwydd efallai y daw i'r amlwg y dylai corff mwy priodol ymgymryd â'r swyddogaeth hon. A allech roi enghraifft o gorff o'r fath?

3. Mae adran 5(4) yn darparu ar gyfer rheoliadau peilot i adlewyrchu'r darpariaethau cofrestru etholiadol heb geisiadau yn adran 3; fodd bynnag, nid yw gofyniad i beilota adran 3 yn golygu y daw'r adran honno i rym. A allech egluro a wnaethoch ystyried

gwneud y gallu i ddwyn adran 3 i rym yn amodol (er enghraifft, heb fod yn gynharach na phryd y daw o leiaf un peilot perthnasol ddod i ben), ac os felly, pam nad ydych yn gwneud hynny?

4. Mae’n ymddangos y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio’r pŵer o dan adran 5 i dreialu’r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(2); fodd bynnag, mae pŵer dilynol yn adran 8 i newid y pŵer yn adran 5(3). A allech egluro o dan ba amgylchiadau rydych yn rhagweld y pŵer hwnnw yn cael ei ddefnyddio?

5. A allech egluro pam, yn rhinwedd adran 26 o'r Bil, yr ydych yn gwneud darpariaeth i newid y pŵer presennol i wneud rheoliadau yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i fod yn bŵer i wneud cyfarwyddydau?

6. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau neu gategorïau o bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 27(4), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

7. A allech egluro pa swyddogaethau rydych chi'n rhagweld y byddant yn cael eu rhoi i bersonau drwy reoliadau a wneir o dan adran 29(8), ac a allech chi egluro pam nad yw'r swyddogaethau hynny wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil?

8. Mae’r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 41 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. O ystyried y gellir defnyddio’r pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, a allech chi egluro pam nad yw’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol?

9. Mae’n ymddangos bod pŵer gwneud rheoliadau newydd wedi’i gynnwys yn adran 51 o’r Bil nad yw’n ymddangos yn y tabl o bwerau dirprwyedig yn y Memorandwm Esboniadol. A allech ddisgrifio’r pŵer, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a’r rhesymau dros y weithdrefn a ddewiswyd?

10. Gwnaethoch ddweud hefyd eich bod yn bwriadu gwella hygyrchedd y gyfraith mewn perthynas ag etholiadau datganoledig. A allech egluro pam fod darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn, yn hytrach nag o fewn Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)?

Yn ystod y sesiwn fe gytunoch hefyd i ddarparu nodyn yn amlinellu pwerau presennol Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer cyfrif pleidleisiau yn electronig mewn etholiadau datganoledig.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 19 Rhagfyr 2023.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament